



Gwobrau Michael Marks am Bamffledi Barddoniaeth 2020

Mae'r Wordsworth Trust a'r Llyfrgell Brydeinig, gyda chefnogaeth hael Y Michael Marks Charitable Trust, yn cyflwyno Gwobrau Michael Marks am Bamffledi Barddoniaeth, mewn cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y Times Literary Supplement a'r Center for Hellenic Studies Prifysgol Harvard (CHS), yn Washington DC ac yn Nafplio yng Ngwlad Groeg.

Nod y Gwobrau yw codi proffil pamffledi barddoniaeth, gan gydnabod eu cyfraniad aruthrol i fyd barddoniaeth.

Ceir pedair gwobr:

Mae **Gwobr Michael Marks am Farddoniaeth** yn cydnabod pamffled barddoniaeth rhagorol a gyhoeddwyd yn y Deyrnas Gyfunol rhwng y 1af o fis Awst 2019 a'r 30ain o fis Medi 2020. Bydd y beirniaid yn ystyried ansawdd y pamffled yn ogystal â'r farddoniaeth.

Gwobr

Bydd y bardd buddugol yn derbyn sic am £5,000. Bydd bardd y pamffled buddugol hefyd yn cael cyfle i ddod yn Fardd Preswyl fel rhan o wyliau Gwanwyn yr Harvard Alumni Association/Center for Hellenic Studies yng Ngwlad Groeg. Cynhelir y cyfnod preswyl yn ystod Gwanwyn 2021 ar ddyddiad i'w gadarnhau.

Mae **Gwobr Michael Marks i Gyhoeddwr** yn cydnabod cyhoeddwr rhagorol sy'n cyhoeddi barddoniaeth ar ffurf pamffledi yn y Deyrnas Gyfunol, ar sail ei raglen gyhoeddi rhwng y 1af o fis Awst 2019 a'r 30ain o fis Medi 2020. Bydd y beirniaid yn ystyried athroniaeth y cyhoeddwr, eu nodau, eu cynlluniau, eu hethos o ran dylunio a'u strategaeth marchnata yn ogystal ag ansawdd y farddoniaeth.

Gwobr

Bydd y cyhoeddwr buddugol yn derbyn sic am £5,000.

Mae **Gwobr Michael Marks am Farddoniaeth mewn Iaith Geltaidd** sydd yn cydnabod pamffled barddoniaeth rhagorol a gyhoeddwyd yn y Deyrnas Gyfunol rhwng y 1af o fis Awst 2019 a'r 30ain o fis Medi 2020, mewn iaith Geltaidd (Cymraeg, Gaeleg yr Alban, Gwyddeleg, Cernyweg a Manaweg). Bydd y beirniaid yn ystyried ansawdd y pamffled yn ogystal â'r farddoniaeth.

Gwobr

Bydd y bardd buddugol yn derbyn sic am £2,000. Bydd bardd y pamffled buddugol hefyd yn cael cyfle i ddod yn Fardd Preswyl fel rhan o wyliau Gwanwyn yr Harvard Alumni Association/Center for Hellenic Studies yng Ngwlad Groeg. Cynhelir y cyfnod preswyl yn ystod Gwanwyn 2021 ar ddyddiad i'w gadarnhau.

Bydd **Gwobr Michael Marks am Ddarlunio** yn cydnabod darlunio rhagorol mewn pamffled barddoniaeth a gyhoeddwyd rhwng y 1af o fis Awst 2019 a'r 30ain o fis Medi 2020. Bydd y beirniad yn ystyried darluniau mewn unrhyw gyfrwng ac yn edrych am berthynas gynnil a pharhaus rhwng y delweddu a'r geiriau, yn ogystal ag ansawdd cyffredinol y delweddu.

Gwobr

Bydd y darlunydd buddugol yn derbyn sic am £1000.

Dethlir y Gwobrau mewn cinio arbennig, yng nghwmni'r beirdd a'r cyhoeddwr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer, yn y Llyfrgell Brydeinig ar ddydd Llun 14 o fis Rhagfyr 2020. Bydd modd cael mynediad i ddigwyddiad rhithwir rhag ofn na fydd digwyddiad go iawn yn ymarferol.

**Y dyddiad cau ar gyfer cynigion - 4.00pm ar ddydd Mercher 30ain o fis Medi 2020.
Mae'r dyddiad cau yn derfynol ac ni roddir sylw i gynigion ar ôl y dyddiad hwn.**

"Mae'r gwobrau hyn wedi'u hysbrydoli ac yn cydnabod bod i'r pamffled bwysigrwydd sylfaenol yn niwylliant llenyddiaeth, sydd ymhell y tu hwnt i unrhyw beth a awgrymir gan y geiriadur – "cyhoeddiad cryno ag iddo glawr papur, yn gyffredinol". I lawer o'r goreuon sy'n barddoni ar hyn o bryd, dyma oedd eu dull cyntaf o ledaenu eu gwaith ond dyma hefyd oedd cadarnhad cyntaf eu dawn."

Seamus Heaney

Y Beirniaid

Gwobrau Barddoniaeth a Gwobrau'r Cyhoeddwyr

Ganed **Kei Miller** yn Jamaica ym 1978 ac y mae wedi ysgrifennu llyfrau mewn nifer o *genres* gwahanol. Enillodd ei gasgliad o 2014, *The Cartographer Tries to Map a Way to Zion*, y Forward Prize for Best Collection, tra enillodd ei nofel o 2017, *Augustown*, y Bocas Prize for Caribbean Literature, y Prix Les Afriques, a'r Prix Carbet de la Caraïbe et du Tout-Monde. Y mae hefyd yn ysgrifwr.

Darlithydd yn y Clasuron ym Mhrifysgol Harvard yw **Natasha Bershadskiy** a Chymrawd ym Marddoniaeth a Hanes Hen Wlad yn y Center for Hellenic Studies, lle y mae'n gydolygydd Magnetic Links, prosiect barddoniaeth yn *Classical Inquiries* yn ymwneud â chysylltiadau rhwng barddoniaeth fodern a thraddodiadau hynafol Groegaidd. Mae ei hymchwil yn edrych ar elfennau defodol a mytholegol rhyfeloedd cynnar Gwlad Groeg, agweddau gwleidyddol a chrefyddol yn ngweithiau Hesiod, and breuddwydion o'r henfyd.

Bardd, Beirniad a gohebydd llenyddol yw **William Wootten**. Ym mhlith ei lyfrau y mae'r astudiaeth feirniadol *The Alvarez Generation* (Liverpool University Press, 2015 a 2020), y casgliad barddoniaeth *You Have a Visitor* (Worple, 2016) a'r gyfrol gyda nodiadau *Reading Walter de la Mare*, a chaiff ei chyhoeddi gan Faber ym mis Mehefin 2021. Ymddangosodd ei erthyglau a'i adolygiadau ar farddoniaeth mewn nifer o bapurau newydd a chylchgronau cenedlaethol, yn aml iawn yn *Times Literary Supplement*. Darlithydd Saesneg yw ym Mhrifysgol Briste.

Pennaeth Archifau a Llawysgrifau Cyfoes yn y Llyfrgell Brydeinig yw **Rachel Foss**. Bu'n curadu nifer o arddangosfeydd yn y Llyfrgell gan gynnwys *'In a Bloomsbury Square': T.S. Eliot the Publisher, Writing Britain: Wastelands to Wonderlands* a *Gay UK: Love, Law and Liberty*. Cyhoeddodd nifer o erthyglau ar archifau llenyddol a chasglu. Bu'n feirniad ar gyfer Gwobrau Michael Marks yn 2018 ac yn 2019.

Y Wobr am Ddarlunio

Cyfarwyddwr yr Oriel Genedlaethol yn Llundain o 2008 tan 2015 oedd **Nicholas Penny**. Mae hefyd wedi gweithio fel darlithydd hanes celf ym Mhrifysgol Manceinion, Ceidwad Adran Gelf Orllewinol Amgueddfa'r Ashmolean yn Rhydychen, Clore Curator of Renaissance Painting yn yr Oriel Genedlaethol yn Llundain a Churadur Hŷn Cerflunwaith a Chelf Addurniadol yr Oriel Gelf Genedlaethol yn Washington. Mae'n awdur llyfrau ac erthyglau niferus ar baentio a cherflunio, gan gynnwys *Raphael* (gyda Roger Jones), *Taste and the Antique* (gyda Francis Haskell), *The Materials of Sculpture*.

Gwobr Farddoniaeth mewn Iaith Geltaidd

Mae **Aonghas Phàdraig Caimbeul** yn fardd, nofelydd, gohebydd, darlledwr ac actor arobryn. Ganed a magwyd ef yn Ne Uist a threuliodd ei arddegau yn ardal Oban lle cafodd ei addysgu gan Iain Crichton Smith, yn yr ysgol uwchradd leol. Yn 2001 enillodd y Goron Farddol am farddoniaeth yn yr Aeleg. Yn 2002 derbyniodd wobr Creative Scotland am lenyddiaeth ac yn 2008 cafodd ei enwebu am BAFTA actor gorau am brif ran yn y ffilm Aeleg, *Seachd*. Enillodd ei nofel *An Oidhche Mus Do Sheòl Sinn* Wobr Orange/List yn 2007 am un o'r Top Ten Best-Ever Books from Scotland - a

hynny trwy bleidlais gyhoeddus. Enillodd ei gasgliad barddoniaeth *Aibisidh Wobr* yr Alban am Lyfr Barddoniaeth y Flwyddyn yn 2011 ac enillodd ei nofel *Memory and Straw Wobr* y Saltire Society ar gyfer Llyfr Ffuglen yr Alban yn 2017.

Rheolwr Mynediad at Gasgliadau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw **Dafydd Pritchard**. Bardd a enillodd y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1996 ac sydd wedi cyhoeddi dwy gyfrol o farddoniaeth. Bu'n feirniad ar gyfer cystadleuaeth y Goron ddwywaith ac yn adolygydd rheolaidd. Bu'n Gadeirydd Barddas, y Gymdeithas Gerdd Dafod am bum mlynedd.

Rheolau ar gyfer cyflwyno gwaith

Wrth gyflwyno pamffledi i'w hystyried ar gyfer Gwobrau Michael Marks am Bamffledi Barddoniaeth, mae'r ymgeiswyr yn cytuno i gadw at y rheolau hyn. Darllenwch y rheolau yn ofalus cyn cyflwyno'ch gwaith, os gwelwch yn dda. Cyfrifoldeb y bardd/cyhoeddwr yw darllen y rheolau hyn a sicrhau bod y gwaith a gyflwynir yn gymwys. Ni ystyrir unrhyw waith nad yw'n gymwys. **Ni ohebir ynghylch gwaith a gyflwynwyd nad yw'n gymwys ac ni chaiff ei ddychwelyd.** Os oes amheuaeth, holwch Weinyddydd y Gwobrau os ydych yn gymwys, cyn cyflwyno'ch gwaith.

Mae rheolau sydd yn berthnasol i un wobwr i'w cael isod yn adrannau 5, 6, 7 ac 8 ond ar gyfer pob Gwobr, mae'r rheolau cystadlu canlynol yn berthnasol:

1. Cymhwystra

- a) Mae'r diffiniad ar gyfer pamffled yn cynnwys pamffled, llyfrynau sieb, llyfrau celf a fformatau llyfrau annhraddodiadol. Nod y Gwobrau yw ysgogi cyhoeddiadau print, ac felly nid yw e-lyfrau'n gymwys. Mae cyhoeddiadau â meingefn yn dderbyniol, ar yr amod y bodlonir yr amodau cymhwystra eraill. Gall pamffledi fod â chloriau papur neu gerdyn meddal ond nid yw cloriau caled yn dod o fewn y diffiniad hwn. Cysylltwch â Gweinyddwr y Gwobrau os gwelwch yn dda, os nad ydych yn sicr a ydych yn gymwys ai peidio.
- b) **Ni ddylai fod gan gyhoeddiadau fwy na 36 tudalen, ac eithrio cloriau ond gan gynnwys tudalennau gwag, y dudalen deitl, nodiadau, darluniau ayb.** Ni fydd cyhoeddiadau sydd â mwy o dudalennau na hyn yn gymwys. Nid oes terfyn isaf ar y nifer o dudalennau. At ddiben cyfrif tudalennau, cymerir bod papurau terfyn lliw yn rhan o'r clawr.
- c) Mae cerddi unigol, casgliadau gan un awdur, cyhoeddiadau gan gyd-awduron, cyfieithiadau a blodeugerddi oll yn gymwys, ar yr amod eu bod yn bodloni'r amodau cymhwystra eraill.
- ch) Gellir cyflwyno gwaith yr ydych wedi ei gyhoeddi eich hun.
- d) Nid oes gofyn cael ISBN.
- dd) Nid yw cylchgronau neu gyfnodolion a gyhoeddir yn rheolaidd yn gymwys. Cysylltwch â Gweinyddwr y Gwobrau os gwelwch yn dda, os nad ydych yn sicr a ydych yn gymwys ai peidio.
- e) Ni ddylid bod wedi cyhoeddi'r cerddi o'r blaen ar ffurf pamffled na llyfr. Gallant fod wedi cael eu cyhoeddi mewn cylchgronau.

- f) Mae gwaith a gyhoeddwyd ar ôl marwolaeth y bardd yn gymwys, lle y cafodd ei gyhoeddi o fewn blwyddyn i 'w farwolaeth ac o fewn y cyfnod cymhwysra
- ff) Dim ond pamffledi a gyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig rhwng y 1af o fis Awst 2019 a'r 30ain o fis Medi 2020 sy'n gymwys. **Ni ellir cyflwyno unrhyw bamffled i Wobrau Michael Marks mewn mwy nag un flwyddyn.**
- g) Nid yw Gwobrau Michael Marks yn agored i gyflogeion y Wordsworth Trust, y Llyfrgell Brydeinig, Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, Llyfrgell Genedlaethol Cymru na'r Times Literary Supplement.

2. Gweithdrefn

- a) Rhaid cyflwyno gwaith ar y **ffurf argraffiedig derfynol** a rhaid cynnwys ffurflen ymgeisio ar gyfer pob Gwobr yr ydych yn dymuno cystadlu amdani.

Ar gyfer y **Wobr am Farddoniaeth**, rhaid derbyn **chwe copi o bob pamffled a gyflwynir, ynghyd â ffurflen ymgeisio wedi'i llenwi**, yn y cyfeiriad ar gyfer derbyn gwaith, erbyn 4.00pm ar ddydd Mercher y 30ain o fis Medi. Gellir cyflwyno sawl teitl ar un ffurflen ymgeisio.

Ar gyfer y **Wobr i Gyhoeddwyr**, nid oes agen cynnwys unrhyw gopïau ychwanegol o'r Pamffled, **ond** rhaid cyflwyno **chwe copi o ffurflen ymgeisio'r Wobr i Gyhoeddwyr, wedi'u llenwi, yn ogystal â'r ffurflen ymgeisio'r Wobr am Farddoniaeth.**

Ar gyfer y **Wobr am Farddoniaeth mewn Iaith Geltaidd**, rhaid derbyn **pum copi o bob pamffled a gyflwynir, ynghyd â ffurflen ymgeisio'r Wobr am Farddoniaeth mewn Iaith Geltaidd, wedi'i llenwi**, yn y cyfeiriad ar gyfer derbyn gwaith, erbyn 4.00pm ar ddydd Mercher, y 30 o fis Medi. Gellir cyflwyno sawl teitl ar un ffurflen ymgeisio. Ni ellir cyflwyno pamffledi i'r Wobr am Farddoniaeth os ydynt eisoes wedi'u cyflwyno i'r Wobr am Farddoniaeth mewn Iaith Geltaidd. Cynigir y Wobr mewn cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol yr Alban a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Er mwyn cystadlu am y **Wobr am Ddarlunio**, rhaid cyflwyno copi ychwanegol o'r pamffled, sydd yn gwneud cyfanswm o saith copi. Rhaid llenwi **dwyr Ffurflen Ymgeisio ar gyfer y Wobr am Ddarlunio** yn ogystal â'r ffurflen arall/ffurflenni eraill.

- b) Mae'r dyddiad cau yn derfynol, ac ni ystyrir unrhyw waith a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn na'i ddychwelyd chwaith. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd i'w sicrhau y cyflwynir y gwaith erbyn y dyddiad cau.
- c) Mae ffurflenni ymgeisio ar gael yma www.michaelmarksawards.org/enternow.
- ch) Cydnabyddir pob gwaith sy'n dod i law drwy e-bost. Gadewch bythefnos i ni gydnabod os gwelwch yn dda, er y bydd hyn yn gynt fel arfer. Os na cheir cydnabyddiaeth o fewn y cyfnod hwn, da chi cysylltwch â Gweinyddwr y Gwobrau drwy e-bost: admin@michaelmarksawards.org
- d) Nid oes tâl am gystadlu yng Ngwobrau Michael Marks.
- dd) Ni fyddwn yn dychwelyd unrhyw waith sy'n cael ei anfon atom. O'r chwe/saith copi o bob teitl a anfonir atom, anfonir un copi yr un at bob un o'r beirniaid, cedwir un copi at ddibenion gweinyddol a chynigir un i'r Casgliadau Llenyddiaeth Brint yn y Llyfrgell Brydeinig. Y Llyfrgell Brydeinig fydd yn penderfynu a ydyw am eu cynnwys yn barhaol yn ei chasgliadau.

3. Y Broses Feirniadu

- a) Dewisir y rhestr fer a'r enillwyr yng nghategoriau Barddoniaeth a Chyhoeddwyr gan y panel o bedwar beirniad.
- b) Cyhoeddir y rhestr fer ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2020 ar wefan y Gwobrau. Ni fydd unrhyw ohebu ar hyn cyn y cyhoeddiad swyddogol.
- c) Cyhoeddir enillydd pob gwobr mewn cinio arbennig yn y Llyfrgell Brydeinig ar noson y 14eg o fis Rhagfyr 2020. Bydd modd cael mynediad i ddiwyddiad rhithwir rhag ofn na fydd digwyddiad go iawn yn ymarferol.
- ch) Bydd beirdd a chyhoeddwyr ar y rhestr fer ac enillwyr y Wobr am Ddarlunio a'r Wobr am Farddoniaeth mewn iaith Geltaidd yn derbyn gwahoddiad i ddarllen/siarad yn ystod y digwyddiad.
- d) Bydd penderfyniad y beirniaid yn derfynol ac ni fydd unrhyw ohebu yn ei gylch.

4. Cyhoeddusrwydd

Mae unrhyw un sy'n cyflwyno'i waith yn rhoi i drefnwyr Gwobrau Michael Marks am Bamffledi Barddoniaeth, ganiatâd i ddefnyddio cerddi o'r pamffledi a gyflwynwyd at ddibenion cyhoeddusrwydd, ar ffurf print, electronig a sain. Y beirniaid fydd yn penderfynu ar y deunydd ar gyfer gwneud hyn, ond ni fydd hyn yn fwy nag un gerdd neu ddyfyniad cywerth o waith hirach. Yr awduron sy'n cadw'r hawlfraint. Dylai cyhoeddwyr a beirdd fod yn fodlon cymryd rhan yn y gwaith o farchnata'r Gwobrau. Os cânt fynd ar restr fer mae unrhyw gystadleuwyr yn rhoi caniatâd i ddelweddau a dynnir ar yr achlysur gael eu defnyddio ar wefan Michael Marks a gwefannau partneriaid.

5. Rheolau Pellach ar gyfer y Wobr am Farddoniaeth

- a) Os oes sawl awdur i'r gwaith buddugol, rhennir y wobr yn gyfrannol rhwng yr awduron ac, yn achos gwaith a gyflwynwyd ar ôl marwolaeth yr awdur, gydag ystâd yr awdur.
- b) Lle y bo'r gwaith buddugol yn gyfieithiad newydd, rhennir y wobr yn ôl y trefniadau cytundebol rhwng yr awdur gwreiddiol a'r cyfieithydd.
- c) Cynigir y cyfnod fel bardd preswyl CHS ar ddyddiadau penodol. Nid oes modd trosglwyddo'r wobr ac ni chynigir gwobr arall yn ei lle. Os na fydd yr enillydd yn gallu anrhydeddu'r dyddiadau a gynigir, gellir cynnig y cyfnod preswyl i fardd arall a gyrhaeddodd y rhestr fer, yn ôl doethineb y beirniaid.

6. Rheolau Pellach ar gyfer Gwobr y Cyhoeddwyr

- a) Dylai'r rheiny sy'n cyflwyno'u gwaith ar gyfer Gwobr y Cyhoeddwyr, gyflwyno pob pamffled cymwys a gyhoeddwyd rhwng y 1af o fis Awst 2019 a'r 30ain o fis Medi 2020. Dylai pob pamffled a gyflwynir fodloni'r amodau cymhwysra ar gyfer pob pamffled unigol a dylid eu cyflwyno ar gyfer y Wobr am Farddoniaeth hefyd.
- b) Nid oes isafswm ar gyfer y nifer o bamffledi y mae ar y Cyhoeddwyr angen bod wedi eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod cymwys.

- c) Ar gyfer Gwobr y Cyhoeddwr, gofynnir i gyhoeddwr gyflwyno'u gwaith i'r beirniaid, ar y ffurflen briodol, dan y penawdau canlynol:
1. Cyhoeddi pamffledi – disgrifiad cryno o'r rhaglen cyhoeddi pamffledi ar gyfer y cyfnod cymhwys, ynghyd â datganiad ynghylch athroniaeth cyhoeddi cyhoeddwr y pamffledi, ei nodau, ei strategaeth a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol (dim mwy na 500 gair).
 2. Dylunio ac argraffu – datganiad cryno ynghylch y meini prawf dylunio ac argraffu a ddefnyddir gan y cyhoeddwr pamffledi, y bydd y beirniaid yn edrych arno ynghyd â'r pamffledi a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod cymhwys (dim mwy na 300 gair).
 3. Hyrwyddo – datganiad cryno ynghylch strategaeth gwerthiant a hyrwyddo'r cyhoeddwr pamffledi a'i weithgareddau gwerthiant a hyrwyddo yn ystod y cyfnod cymhwys, a'r canlyniadau a gyflawnwyd (dim mwy na 300 gair).

Dylai pob cyhoeddwr gyflwyno **pum copi o Ffurflen Ymgeisio'r Cyhoeddwr wedi'u llenwi.**

7. Rheolau pellach ar gyfer y Wobr am Farddoniaeth mewn Iaith Geltaidd

- a) Dylai pob gwaith sydd yn cael ei gyflwyno fod yn waith gwreiddiol yn Gymraeg, Gaeleg yr Alban, Gwyddeleg, Cernyweg neu Fanaweg. Nid yw cyfieithiadau i'r ieithoedd hyn yn gymwys ar gyfer y wobr hon.
- b) Ni fydd rhestr fer i'r wobr hon. Cysylltir â'r enillydd cyn y digwyddiad gwobrwyo gyda gwahoddiad i'r achlysur ond ni ddatgelir enw'r enillydd tan y digwyddiad.
- c) Cynigir y cyfnod fel bardd preswyl CHS ar ddyddiadau penodol. Nid oes modd trosglwyddo'r wobr ac ni chynigir gwobr arall yn ei lle. Os na fydd yr enillydd yn gallu anrhydeddu'r dyddiadau a gynigir, gellir cynnig y cyfnod preswyl i fardd arall a gyrhaeddodd y rhestr fer, yn ôl doethineb y beirniaid.
- ch) Mae'r beirniaid yn cadw'r hawl i beidio â chynnig gwobr os ydynt yn teimlo nad oes digon o bobl wedi ymgeisio.

8. Rheolau pellach ar gyfer y Wobr am Ddarlunio

- a) Rhaid i waith a gyflwynwyd ar gyfer y Wobr am Ddarlunio gynnwys copi ychwanegol o'r pamffled, a fydd yn cael ei anfon at y Beirniad ar gyfer y Wobr am Ddarlunio. Rhaid i unrhyw waith a gyflwynir fod wedi'i gyflwyno ar gyfer y Wobr am Farddoniaeth hefyd a bodloni'r amodau cyffredinol ar gyfer cystadlu yn y Gwobrau.
- b) Rhaid bod yr holl ddarluniau'n waith gwreiddiol a rhaid mai gwaith y darlunydd a enwir ydynt. Dylent fod wedi cael eu creu at y diben penodol o ddarlunio'r pamffled barddoniaeth.
- c) Gyda phob gwaith a gyflwynir dylid cyflwyno datganiad cryno am y cyfrwng a ddewiswyd ar gyfer y darlunio, ar y ffurflen ymgeisio briodol. Dylai pob gwaith ddod gyda **dau gopi o'r ffurflen ymgeisio.**
- ch) Ni chyhoeddir rhestr fer ar gyfer y wobr hon. Cysylltir â'r enillydd cyn y digwyddiad gwobrwyo gyda gwahoddiad i'r achlysur ond ni ddatgelir enw'r enillydd tan y digwyddiad.
- d) Dewisir yr enillydd gan feirniad y Wobr am Ddarlunio. Bydd penderfyniad y beirniaid yn derfynol ac ni fydd unrhyw ohebu yn ei gylch.

9. Ymholiadau a cheisiadau

Ymholiadau trwy e-bost: admin@michaelmarksawards.org

Dylid anfon unrhyw gais at:

The Michael Marks Awards, 17 Orchard View, Aughton, Ormskirk, Lancashire L39 5AD

Lawrlwythwch ffurflenni ymgeisio yma www.michaelmarksawards.org/enternow

Y Sefydliadau y tu ôl i'r Gwobrau

Sefydlwyd y **Michael Marks Charitable Trust** ym 1966 gan y diweddar Arglwydd Marks, 2^{il} Farwn Broughton. Ers ei sefydlu, mae wedi ymrwymo dros £20m i gynorthwyo sefydliadau dielw ac elusennau sydd wedi ymrwymo i warchod a hyrwyddo diwylliant a'r amgylchedd.

Cefnogir y Gwobrau'n hael gan y Michael Marks Charitable Trust

The Award Partners

Y Llyfrgell Brydeinig yw llyfrgell genedlaethol y Deyrnas Gyfunol ac mae'n un o lyfrgelloedd ymchwil gorau'r byd. Mae ganddi gasgliadau helaeth o farddoniaeth mewn ieithoedd niferus, ac o bob cyfnod hyd y cyfnod hwn. Mae ganddi'r casgliad mwyaf o farddoniaeth Brydeinig fodern yn y byd ac mae'n ymdrechu'n rhagweithiol i ychwanegu pamffledi barddoniaeth gyfoes at ei chasgliad. <https://www.bl.uk/>

Lleolir y **Wordsworth Trust** yn Dove Cottage, Grasmere ble bu William Wordsworth yn byw yn ystod ei 'ddegawd euraid' (1799-1808) pan ysgrifennodd y rhan fwyaf o'i waith pwysicaf yn ôl y farn gyffredin heddiw. Cafodd ei disgrifio fel 'yr amgueddfa lenyddol orau yn y byd'. Er mwyn nodi dau gan mlwyddiant a hanner geni'r bardd yn 2020, mae'r Wordsworth Trust wedi cychwyn ar brosiect datblygu £6 miliwn o'r enw 'Reimagining Wordsworth' a fydd yn galluogi mwy o bobl o fwy o gefndiroedd amrywiol i ddarganfod barddoniaeth Wordsworth. Am ragor o wybodaeth ewch i: www.wordsworth.org.uk

Mae'r Times Literary Supplement yn rhoi sylw cynhwysfawr i'r cyhoeddiadau diweddaraf a phwysicaf, ymhob pwnc, mewn sawl iaith, ochr yn ochr â gwaith theatr, opera, arddangosfeydd a ffilmiau cyfoes. Cydnabyddir ei awdurdod ym mhedwar ban byd. <https://www.the-tls.co.uk/>

Sefydlwyd y **Center for Hellenic Studies, Prifysgol Harvard**, yn Washington DC, "yn arbennig at y diben o sefydlu canolfan addysgiadol ym maes Astudiaethau Helenaidd a ddyluniwyd i ailddarganfod dyneiddiaeth y Groegwyr Helenaidd.". **Mae'r Ganolfan yng Ngwlad Groeg** yn ganolfan ryngwladol unigryw. Ei phrif genhadaeth yw cefnogi a hyrwyddo astudiaeth o wareiddiad Helenaidd, ac ar yr un pryd bod yn lleoliad ar gyfer gweithrediadau i fyfyrwyr, ymchwilwyr ac ysgolheigion o'r Unol Daleithiau, Gwlad Groeg a thu hwnt. <https://chs.harvard.edu/>

Cyfranoqion i'r Gwobrau

Mae **Llyfrgell Genedlaethol yr Alban** yn diogelu hanes cofnodedig cenedl yr Alban gyda chasgliadau sydd yn rhychwantu'r canrifoedd o'r cyfnod cynharaf i'r oes ddigidol. Cesglir deunydd ym mhob un o ieithoedd yr Alban mor gynhwysfawr â phosibl, gyda chasgliadau barddoniaeth arbennig o eang. Mae ei statws fel llyfrgell adnau cyfreithiol i'r Deyrnas Gyfunol wedi sicrhau mai hi yw llyfrgell fwyaf yr Alban ac un o'r prif lyfrgelloedd ymchwil yn Ewrop. <https://www.nls.uk/>

Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw prif gadwrfa archifau, llawysgrifau a chasgliadau unigryw eraill Cymru ac mae hefyd yn llyfrgell adnau cyfreithiol i'r Deyrnas Gyfunol. Mae barddoniaeth wedi bod yn ganolog i ddiwylliant Cymru erioed, fel i'r cenhedloedd Celtaidd eraill, ac mae casgliadau'r Llyfrgell yn adlewyrchu hynny mewn llawysgrifau cynnar a chyfrolau'r dydd heddiw o Gymru ac o lawer i wlad arall trwy'r byd. <https://www.llyfrgell.cymru/>